# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Tara Martin Dental Care, Caergybi

Dyddiad yr arolygiad: 18 Ebrill 2017

Dyddiad cyhoeddi: 19 Gorffennaf 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-4734-9585-2



© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 7

    Ansawdd profiad y claf ........ 8

    Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 12

    Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 19

4. Beth sydd nesaf? ........ 21

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 22

    Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad 23

    Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 24

    Atodiad C – Cynllun gwella ........ 26

## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

# Ein diben

**Gwirio bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu'n agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol ar sail yr hyn rydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull o weithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Mynegi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn rydym yn ei weld i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arferion.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Tara Martin Dental Care yn 2 Teras Fictoria, Caergybi, Ynys Môn, LL65 1UT, ar 18 Ebrill 2017.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y practis yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Mae rhagor o fanylion am sut rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Tara Martin Dental Care yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol ar gyfer ei gleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer o feysydd y dylid eu gwella er mwyn ategu'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Mae'r practis wedi ymroddi i roi profiad cadarnhaol i gleifion
- Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd
- Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddi ac yn gymwys i gyflawni eu cyfrifoldebau
- Roedd y ddwy ystafell driniaeth wedi'u cyfarparu'n dda ac i'w gweld yn lân, yn daclus ac yn drefnus.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y cyfleusterau dadheintio'n cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05
- Cofnodi nodiadau cleifion
- Sicrhau bod archwiliadau blynyddol o ansawdd delweddau pelydr-X yn cael eu cynnal
- Gweithredu mecanwaith ffurfiol i gasglu safbwyntiau cleifion
- Sicrhau bod biniau gwastraff glanweithiol yn cael eu darparu yn y tŷ bach i staff a'r tŷ bach i gleifion.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Tara Martin Dental Care yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig ac fe'i lleolir yng Nghaergybi, Ynys Môn.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys tri deintydd, un therapydd, un nyrs ddeintyddol, dwy nyrs ddeintyddol o dan hyfforddiant a rheolwr practis.

Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol preifat megis:

- Sythu dannedd
- Mewnblaniadau deintyddol
- Corunau
- Gwaith pontio
- Argaenau
- Gwynnu dannedd
- Tawelu ymwybodol.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull ni o arolygu.*

Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi ymroddi i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd o 34 holiadur cleifion yn gadarnhaol, a gwnaeth cleifion gyfeirio at agwedd gyfeillgar, ofalgar a phroffesiynol staff y practis.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cwblhawyd cyfanswm o 34 o holiaduron. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *'Dw i wedi derbyn gwasanaeth da iawn, dibynadwy a chyfeillgar erioed'*
>
> *Dw i wedi bod yn bles iawn ac yn fodlon ar yr holl gyngor a thriniaethau dw i wedi'u derbyn'*
>
> *'Mae'r practis hwn yn wych ac maent wedi fy helpu i drechu'r ofn deintyddion a oedd arnaf. Mae [staff unigol] a'r holl staff yn wych'*
>
> *'Mae'n darparu gwasanaeth hollol ddigonol'*
>
> *'Dw i'n teimlo fy mod wedi bod yn ffodus iawn mynychu'r practis deintyddol hwn a dw i'n hapus gyda fy nhriniaeth'*

### Cadw'n iach

Roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd deintyddol neilltuedig ar gael, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cynorthwyo i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd amryw bosteri a thaflenni gwybodaeth wedi'u harddangos, a oedd yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol. Roedd arwyddion 'dim ysmygu' yn cael eu harddangos yn y practis. Roedd rhestrau prisiau hefyd yn cael eu harddangos yn glir yn y man aros/derbynfa.

## Gofal ag urddas

Roedd yr holl gleifion yn fodlon ar y gofal a’r driniaeth roeddent wedi eu derbyn yn y practis, ac roedd yr holl gleifion yn teimlo eu bod yn derbyn croeso cynnes gan y staff a gwnaethant gadarnhau eu bod yn cael eu trin â pharch ar bob adeg. Gwelsom hefyd y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd y staff yn ei ddefnyddio wrth ymdrin â chleifion.

Roedd gan y practis drefniadau i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys mannau i gleifion gynnal sgyrsiau preifat â staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu derbyn yn breifat i ffwrdd o gleifion.

Gwelsom fod y drws i'r ystafell driniaeth ddeintyddol (lle roedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'i gadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion.

### Gwybodaeth am gleifion

O'r holiaduron a gwblhawyd, cadarnhaodd 33 claf eu bod bob amser yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â'u triniaeth unigol a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth.

Mae gan y practis ei daflenni gwybodaeth ei hun i gleifion, a oedd ar gael yn yr ystafell aros gyda digonedd o daflenni gwybodaeth am iechyd y geg.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Gall rhai o'r staff yn y practis gyfathrebu â chleifion yn ddwyieithog. O'r 34 holiadur a gwblhawyd, dywedodd 25 claf eu bod wedi llwyddo i siarad â staff yn eu hiaith ddewisol.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol bob amser. O'r holl holiaduron a gwblhawyd, dim ond un claf a ddywedodd ei fod wedi profi oedi erioed wrth aros i gael ei weld gan y deintydd ar ddiwrnod yr apwyntiad. Fodd bynnag, eglurwyd inni fod hyn oherwydd damwain ffordd.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd ymatebion o holiaduron cleifion yn dangos inni fod yr holl gleifion yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o gyngor am eu triniaeth unigol ac roeddent yn

hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn a bob amser yn teimlo eu bod yn derbyn croeso cynnes.

Roedd hanesion meddygol cleifion yn cael eu cofnodi yn ystod eu hymweliad cyntaf â'r practis, ac fe'n hysbyswyd ni bod y rhain yn cael eu gwirio ar lafar yn ystod pob apwyntiad. Fodd bynnag, nid oedd y ffurflenni meddygol yn cael eu cydlofnodi gan y deintyddion. Fe wnaeth yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiaduron gadarnhau bod y deintyddion yn holi am eu hanesion meddygol cyn cynnal unrhyw driniaeth ddeintyddol. Gwnaethom hysbysu'r practis am yr angen i sicrhau bod y ffurflenni hanes meddygol yn cael eu cydlofnodi gan y deintyddion yn ystod pob apwyntiad lle y cynhelir triniaeth. Gwnaethom hefyd argymell i'r practis y dylai cleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol newydd bob dwy flynedd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r holl staff clinigol sicrhau eu bod yn cydlofnodi ffurflenni hanes meddygol cleifion yn ystod pob apwyntiad lle y cynhelir triniaeth.

## Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Mae dwy ystafell driniaeth ar y llawr daear, sy'n hygyrch i gleifion sydd ag anawsterau symudedd.

## Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis bolisi cwynion ar waith a oedd yn llawn gydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008. Roedd y polisi wedi'i arddangos yn glir yn y dderbynfa/man aros i gleifion ei weld.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin â chwynion a phryderon ffurfiol ac anffurfiol. Er mwyn i'r practis nodi unrhyw themâu cyffredin, gwnaethom gynghori'r practis i gyflwyno lòg, a gwnaethant hyn ar unwaith yn ystod ein harolygiad.

Gwnaethom drafod mecanwaith y practis ar gyfer casglu adborth gan gleifion. Hysbysodd y practis ni nad oedd ganddynt system ffurfiol ar waith i gasglu safbwyntiau cleifion. Gwnaethom argymell bod y practis yn datblygu arolwg cleifion er mwyn i gleifion roi eu hadborth. Gwnaethom hefyd gynghori'r practis i arddangos dadansoddiad o'r adborth a dderbynnir yn y man aros/derbynfa, gan ddangos i gleifion y gweithredir ar adborth a'i fod yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y practis.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis weithredu mecanwaith ffurfiol ar gyfer casglu safbwyntiau cleifion a sicrhau bod dadansoddiad o'r adborth yn cael ei arddangos i gleifion ei weld.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod yr ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân, yn daclus ac wedi'u gosod yn dda a'u bod yn cael eu defnyddio mewn modd effeithiol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer o welliannau a oedd eu hangen i gofnodion cleifion a'r ystafell ddadheintio er mwyn ategu'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd un tŷ bach deuryw at ddefnydd cleifion ac un tŷ bach ar gyfer staff. Roedd arwyddion clir ar gyfer y ddau gyfleuster ac roeddent i'w gweld yn lân. Fodd bynnag, nid oedd bin gwastraff glanweithiol ar gael yn y naill gyfleuster na'r llall. Nodwyd hefyd nad oedd clo ar y tŷ bach ar gyfer staff. Gwnaethom dynnu sylw'r practis at y mater hwn a gwnaethant ein hysbysu y gosodir clo priodol.

Gwnaethom nodi bod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal mewn modd priodol ac ar adegau rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd diffoddwyr tân wedi'u lleoli trwy gydol yr adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd brys wedi'u harddangos yn glir, ac roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn glir.

Gwnaethom nodi bod angen i lyfr damweiniau'r practis gael ei ddisodli â llyfr 'Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus' (RIDDOR), sy'n cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Canfuom fod yr holl gemegion yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un ohonynt wedi ei adael mewn man cyhoeddus.

Roeddem yn gallu gweld bod gan y practis system ar waith ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer

cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom hefyd fod y gwastraff wedi cael ei ddidoli i'r bagiau/cynwysyddion lliw dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir. Fe wnaethom gynghori'r practis i ystyried gosod braced ar y wal ar gyfer y bin offer miniog (gwastraff peryglus) i wella diogelwch a hefyd i archebu biniau ac iddynt gaeadau glas ar gyfer meddyginiaethau nad ydynt yn cael eu defnyddio – gwnaeth y practis hyn ar unwaith yn ystod ein harolygiad.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod yr holl ddamweiniau'n cael eu cofnodi mewn llyfr sydd wedi'i gymeradwy o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR).

Sicrhau y rhoddir biniau gwastraff glanweithiol yn y tŷ bach i gleifion a'r tŷ bach ar gyfer staff.

Gosod mecanwaith clo priodol ar ddrws y tŷ bach ar gyfer staff.

Sicrhau bod unrhyw feddyginiaethau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n cael eu rhoi yn y biniau ac iddynt gaeadau glas.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offerynnau deintyddol, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Fodd bynnag, mae diffyg lle yn rhwystro cydymffurfiaeth lawn â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Canfuom fod yr ystafell ddadheintio'n anniben, yn anhrefnus ac ynddi weoedd corynnod yn gorchuddio rhannau mawr; roedd yn llychlyd ac angen ei glanhau'n drwyadl. Mae'n bosibl bod hyn yn cael effaith negyddol ar y broses ddadheintio drwyadl sydd ei hangen er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.

Rhoddwyd sylw i'n pryderon ynghylch glendid a thaclusrwydd yr ystafell ddadheintio o dan ein proses sicrwydd ar waith. Golygai hyn y gwnaethom ysgrifennu at y practis ar unwaith ar ôl yr arolygiad a gofyn i gamau unioni gael eu cymryd fel mater o frys. Rhoddir manylion y gwelliannau a oedd eu hangen ar unwaith yn Appendix B.

Mae'r ystafell ddadheintio hefyd yn cael ei defnyddio fel cegin, heb unrhyw ddidoliad. Nid yw glanhau offerynnau deintyddol â llaw'n cael ei gynnal yn aml, gan fod y dull a ddefnyddir fel arfer yn awtomatig. Mae sinc golchi dwylo ar

gael ond nid oedd hon yn sinc neilltuedig, gan ei bod yn cael ei defnyddio ar gyfer golchi cwpanau a phowlenni. Mae sinc ar wahân y gellir ei defnyddio ar gyfer sgrwbio offerynnau, ond mae'r bowlen sy'n cael ei defnyddio ar gyfer rinsio ar hyn o bryd yn fach. Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn argymell y dylai fod dwy sinc neilltuedig ar gael ar gyfer gwaith dadheintio, un ar gyfer golchi a glanhau offer, a'r llall ar gyfer eu rinsio. Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried ailddylunio'r ystafell ddadheintio er mwyn gosod sinc arall neu sinc ddwbl ar gyfer gwaith dadheintio. Nes bod dwy sinc neu sinc ddwbl yn cael ei gosod, gwnaethom argymell bod y gwasanaeth yn defnyddio powlen fwy ar gyfer rinsio. Mae hyn oherwydd, ar ôl glanhau offer yn y sinc neu bowlen gyntaf, y gall y gweithredwr rinsio'r offer glân yn effeithlon yn yr ail sinc neu bowlen, a fydd yn lleihau'r perygl o ailheintio'r offer gyda sylweddau glanhau neu sebonau.

Nodwyd hefyd fod paent yn dod i ffwrdd o'r waliau yn yr ystafell ddadheintio ac roedd difrod gweladwy i'r deunydd llorio. Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried ailaddurno'r ardal a hefyd gosod deunydd llorio newydd. Nes y gellir gosod llawr newydd, gwnaethom argymell bod y difrod i'r llawr yn cael ei selio dros dro.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau bob blwyddyn. Fodd bynnag, gwnaethom nodi mai'r dull archwilio roedd y practis yn ei ddefnyddio oedd y Memorandwm Technegol Iechyd (HTM 01-05) sy'n berthnasol i Loegr. Gwnaethom argymell bod y practis yn defnyddio dull archwilio Deoniaeth Cymru fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Gwnaethom nodi hefyd bod yr offerynnau deintyddol yn cael eu storio'n unol â pholisi dadheintio cyfredol y practis. Fodd bynnag, gwnaethom hysbysu'r practis y gellir storio offerynnau mewn bagiau am 12 mis, nid 30 diwrnod. Gwnaethom argymell bod y polisi'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Defnyddio un bowlen fwy ar gyfer rinsio yn y sinc ddadheintio.

Sicrhau bod unrhyw rannau o'r llawr sydd wedi'u difrodi/torri yn yr ystafell ddadheintio'n cael eu selio.

Sicrhau bod dull archwilio Deoniaeth Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer archwiliadau rheoli heintiau yn y dyfodol.

Dylai'r practis adolygu a diweddaru ei bolisi dadheintio.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion ac roedd y rhain yn cael eu harddangos yn y mannau perthnasol. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi derbyn yr holl hyfforddiant perthnasol. Roedd y cyffuriau brys yn cael eu cadw'n ddiogel, ac roeddent ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu/cwympo) yn y practis. Fe wnaethom gynghori'r practis i ystyried cyfnewid y midazolam chwistrelladwy (a ddefnyddir mewn argyfwng epileptig) am midazolam geneuol, gan fod hwn yn haws o lawer ei weinyddu mewn argyfwng.

Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio'r cyfarpar a'r cyffuriau brys i sicrhau bod eu dyddiadau dod i ben yn gyfredol a'u bod yn barod i'w defnyddio. Gwnaethom nodi bod y practis yn gwirio'r lefelau ocsigen bob mis a gwnaethom argymell bod lefelau ocsigen yn cael eu gwirio a'u cofnodi bob dydd. Gwnaethom hefyd argymell bod y practis yn ychwanegu dyddiadau dod i ben nodwyddau/chwistrellau at y lòg cyfredol.

Roedd yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf penodedig wedi'i hyfforddi.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod lefelau ocsigen yn cael eu gwirio a'u cofnodi bob dydd.

Ychwanegu dyddiadau dod i ben nodwyddau/chwistrellau at y lòg cyfredol o offer brys.

Sicrhau bod o leiaf un aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf.

## Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Gwelsom fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Gwelsom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith a oedd yn cynnwys plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, roedd angen diweddaru'r polisi i sicrhau ei fod yn cynnwys y manylion cyswllt cyfredol ar gyfer y tîm diogelu lleol, a gwnaeth y practis hyn ar unwaith yn ystod ein hymweliad.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Fe hysbysodd y practis ni fod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer dau o’r deintyddion wrthi'n cael eu hadolygu ar y pryd a gwelsom dystiolaeth a oedd yn cadarnhau hyn. Rhaid i'r holl ddeintyddion sydd wedi cofrestru gydag AGIC feddu ar wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i ddyddio o fewn y tair blynedd diwethaf. Gwnaethom hefyd wirio bod gan yr holl staff perthnasol eraill dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Anfon manylion y tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd wedi'u hadnewyddu ar gyfer dau ddeintydd at AGIC.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys yr holl offer priodol ac roeddent wedi'u cynllunio a'u trefnu i gynorthwyo'r tîm i weithio'n effeithlon, ac roeddent yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da.

Gwelsom dystiolaeth bod y cywasgydd wedi cael ei wasanaethau'n rheolaidd. Hysbysodd y practis ni fod y cywasgydd yn cael ei ddraenio bob wythnos. Fodd bynnag, nid oedd lòg yn cael ei gynnal a gwnaethom gynghori'r practis i gyflwyno lòg.

Roedd yr holl gyfarpar radiolegol yn cael ei gynnal a’i gadw ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl staff clinigol. Fodd bynnag, ni ellid dod o hyd i dystysgrif lawn ar gyfer un o'r deintyddion ar y diwrnod a chafodd hon ei hanfon at AGIC ar ffurf e-bost ar unwaith.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau pelydr-X. Fodd bynnag, nid oedd archwiliad wedi cael ei gwblhau ers 2015. Gwnaethom argymell bod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X yn cael eu cynnal bob blwyddyn.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Cyflwyno lòg i gofnodi bod y cywasgydd yn cael ei ddraenio bob wythnos.

Cynnal archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X bob blwyddyn.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau perthnasol wedi cael eu cwblhau neu eu trefnu gan y practis.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at y sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat. Roedd polisi diogelu data ar waith.

### Cadw cofnodion

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion wedi'u cwblhau gan y ddau ddeintydd.

Ar y cyfan, roedd tystiolaeth bod y practis at ei gilydd yn cadw cofnodion clinigol digonol. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi rhai meysydd roedd angen eu gwella mewn perthynas â'r nodiadau clinigol. Nodwyd bod angen cofnodi rhagor o fanylion mewn perthynas â hanes cymdeithasol, yn enwedig yr angen i holi cleifion am gymeriant alcohol. Gwnaethom nodi nad oedd y cyfnodau ar gyfer galw cleifion yn ôl yn cael eu cofnodi mewn cofnodion clinigol cleifion.

Nid oedd cofnodion cleifion yn cynnwys cyfiawnhad dros gynnal sganiau pelydr-X chwaith, a chanfuom nad oedd sganiau pelydr-X yn cael eu hadrodd na'u graddio. Canfuom nad oedd yr holl gofnodion yn cynnwys cynllun triniaeth ac nad oedd cydsyniad yn cael ei ddangos bob amser.

Nid oedd lòg ar waith ar gyfer unrhyw atgyfeiriadau allanol a wnaed yn y practis a gwnaethom argymell bod llyfr lòg yn cael ei gyflwyno i gofnodi atgyfeiriadau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Cofnodi rhagor o fanylion yng nghofnodion cleifion mewn perthynas â hanes cymdeithasol, yn enwedig o ran holi cleifion am gymeriant alcohol.

Cofnodi cyfnodau ar gyfer galw cleifion yn ôl yn eu cofnodion.

Rhaid cyfiawnhau, graddio ac adrodd am yr holl sganiau pelydr-X mewn cofnodion cleifion.

Dylai deintyddion sicrhau bod yr holl gofnodion cleifion yn cynnwys cynllun

triniaeth a chydsyniad i driniaeth.

Cyflwyno llyfr lòg ar gyfer cofnodi'r holl atgyfeiriadau allanol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau’n cael eu rheoli a’u harwain ac a yw’r gweithle a’r diwylliant sefydliadol yn cefnogi’r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a'r safonau proffesiynol perthnasol.*

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Roedd y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd yn cael ei gyflawni gan reolwr y practis. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith. Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddi ac yn gymwys i gyflawni eu cyfrifoldebau.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Tara Martin Dental Care wedi bod yn darparu gwasanaethau i gleifion yn Ynys Môn ers iddo agor yn 2009.

Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers blynyddoedd lawer ac roedd perthynas dda rhyngddynt. Dywedodd staff wrthym eu bod yn hyderus wrth godi unrhyw broblemau neu bryderon yn uniongyrchol gyda rheolwr y practis neu'r deintydd arweiniol.

### Staff ac adnoddau

#### Y gweithlu

Gwelsom ffolderi sefydlu staff wedi'u cwblhau ac roedd y rhain wedi'u cynllunio'n dda. Roedd gan yr holl staff fynediad at bolisïau a gweithdrefnau.

Gwelsom hefyd fod gan yr holl staff fynediad at amrediad eang o hyfforddiant – mae hyn yn bodloni'r gofynion ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus , a gwelsom dystiolaeth o arfarniadau staff blynyddol.

Fe'n hysbyswyd ni bod y tîm yn cwrdd yn anffurfiol yn rheolaidd i drafod unrhyw broblemau. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cadw. Gwelsom rywfaint o dystiolaeth o gyfarfodydd tîm ffurfiol a gwnaethom

argymell bod y practis yn cofnodi'r holl gyfarfodydd tîm, boed hynny'n rhai ffurfiol neu anffurfiol.

Gwelsom fod tystysgrifau cofrestru AGIC dau o'r deintyddion wedi’u harddangos, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Fodd bynnag, nid oedd tystysgrif un o'r deintyddion yn cael ei harddangos. Gwnaethom gynghori'r practis i gysylltu â'r Tîm Cofrestru yn AGIC er mwyn iddynt gyhoeddi copi o’r dystysgrif.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd Hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a’r gweithdrefnau a oedd ar waith, a gweld ar y cyfan eu bod yn adlewyrchu'r arferion gwirioneddol. Fodd bynnag, nid oedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cynnwys dyddiadau adolygu a/neu nid oedd y fersiynau'n cael eu rheoli. Gwnaethom argymell bod y practis yn sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, eu bod yn cynnwys dyddiadau adolygu a/neu fod y fersiynau'n cael eu rheoli, a bod y practis yn sicrhau bod yr holl staff yn llofnodi'r polisïau a'r gweithdrefnau i ddangos eu bod wedi'u darllen a'u deall.

Canfuom fod y practis yn arddangos enw a chymhwyster y prif ddeintydd yn unig a gwnaethom hysbysu'r practis am yr angen i arddangos enw a chymwysterau'r holl ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis. Gwnaethom hefyd argymell bod y practis yn arddangos ei oriau agor.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl gyfarfodydd tîm yn cael eu cofnodi a'u logio'n ffurfiol.

Dylid arddangos tystysgrif cofrestriad AGIC un o'r deintyddion fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Dylid arddangos enwau a chymwysterau’r holl ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis.

Dylid hefyd arddangos oriau agor y practis.

Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, eu bod yn cynnwys dyddiadau adolygu a/neu fod y fersiynau'n cael eu rheoli, a’u bod yn cael eu llofnodi gan staff.

# 4. Beth sydd nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon sydd angen sylw ar unwaith yn ystod ein harolygiad, sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon sydd angen sylw ar unwaith mewn perthynas â diogelwch cleifion, lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maent yn eu cymryd i roi sylw i'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rydym yn rhoi rhybudd cyn cynnal arolygiad o bractis deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei roi i gynrychiolydd y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n ategu dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a gwasanaethau iechyd annibynnol ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon a oedd angen sylw ar unwaith | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** **Tara Martin Dental Care**

**Dyddiad yr arolygiad:** **18 Ebrill 2017**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad a lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Canfuom fod yr ystafell ddadheintio'n anniben ac yn anhrefnus, bod gweoedd corynnod yn gorchuddio rhannau mawr, a'i bod yn llychlyd. Gall hyn gael effaith ar y broses ddadheintio drwyadl sydd ei hangen er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.<br><br>Rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn cydymffurfio ag adrannau 5.6 a 6.39 Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Yn benodol, mae amgylchedd gweithio taclus yn gwneud y gwaith | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adrannau 5.6 a 6.39) | Bydd yr holl focsys modelau deintyddol yn cael eu symud o bennau'r cypyrddau a'u rhoi mewn bocsys ac iddynt gaeadau, a fydd yn gwneud y gwaith o lanhau'n haws.<br><br>Bydd yr holl weoedd corynnod yn cael eu tynnu a bydd y waliau, pennau'r cypyrddau a'r holl silffoedd yn cael eu glanhau a'u sychu â chlytiau/chwistrell | Sarah Carrington<br><br>Sarah Carrington<br><br>Sarah | I'w gwblhau erbyn 5/5/17<br><br>I'w gwblhau erbyn 21/4/17<br><br>I'w gwblhau erbyn |

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| o ddadheintio'n haws ac felly ni ddylai'r amgylchedd gweithio fod yn anniben. Dylai'r holl arwynebau, gan gynnwys waliau a lloriau, fod yn daclus i hybu glanhau a hylendid effeithiol.<br><br>Rhaid i'r practis wneud y canlynol:<br><br>1) sicrhau bod yr ystafell ddadheintio'n rhydd rhag annibendod<br><br>2) glanhau'r holl ardal yn drwyadl | | alcohol.<br><br>Bydd waliau'r man dadheintio'n cael eu paentio.<br><br>Bydd yr holl ffeiliau'n cael eu symud o'r man dadheintio. | Carrington<br><br>Sioned Jones | 31/5/17<br><br>Cwblhawyd |

Rhaid i'r adran ddilynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:** **Sarah Carrington**

**Enw (llythrennau bras):** **Sarah Carrington**

**Swydd:** **Rheolwr y Practis**

**Dyddiad:** **20 Ebrill 2017**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** **Tara Martin Dental Care**

**Dyddiad yr arolygiad:** **18 Ebrill 2017**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maent yn eu cymryd i roi sylw i'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dylai'r holl staff clinigol sicrhau eu bod yn cydlofnodi ffurflenni hanes meddygol cleifion yn ystod pob apwyntiad lle y cynhelir triniaeth. | Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Safon 4.1.1 a 4.1.2 | Bydd yr holl glinigwyr yn cofnodi eu bod wedi gwirio hanesion meddygol.<br>Mae bellach adran i glinigwyr ei llofnodi ar ffurflenni hanes meddygol. | Pob clinigydd<br>Rebecca Greenan | Yn parhau<br>Cwblhawyd |
| Dylai'r practis weithredu mecanwaith ffurfiol ar gyfer casglu safbwyntiau cleifion a sicrhau bod dadansoddiad o'r adborth yn cael ei arddangos i gleifion ei weld. | Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Safon 2.1 | Dylunio holiadur cleifion a threfnu dosbarthu'r rhain bob pedwar mis.<br>Arddangos y canlyniadau yn yr ystafell aros. | Sarah Carrington | 30/6/17 |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Sicrhau y rhoddir biniau gwastraff glanweithiol yn y tŷ bach i gleifion a'r tŷ bach ar gyfer staff. | Rheoliadau'r Gweithle 1992 (Iechyd, Diogelwch a Lles) | Mae biniau gwastraff glanweithio wedi'u cyflenwi eisoes gan Cannon Hygiene a'u gosod yn y ddau dŷ bach. | Sarah Carrington | Cwblhawyd |
| Gosod mecanwaith clo priodol ar ddrws y tŷ bach ar gyfer staff. | Rheoliadau'r Gweithle 1992 (Iechyd, Diogelwch a Lles) | Cysylltwyd â saer pren a bydd clo'n cael ei osod. | Sarah Carrington | 16/06/17 |
| Defnyddio biniau ac iddynt gaeadau glas ar gyfer meddyginiaethau nad ydynt yn cael eu defnyddio. | Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2000 | Mae bin ac iddo gaead glas wedi'i gyflenwi eisoes gan Cannon Hygiene. | Sarah Carrington | Cwblhawyd |
| Gwneud un bowlen fwy ar gael ar gyfer rinsio yn y sinc ddadheintio. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, nodyn Adran 2.24 | Prynwyd powlen fwy eisoes ac mae'n cael ei defnyddio yn y man dadheintio. | Sarah Carrington | Cwblhawyd |
| Sicrhau bod unrhyw rannau o'r llawr sydd wedi'u difrodi/torri yn yr ystafell ddadheintio'n cael eu | Memorandwm Technegol | Bydd cyflenwr lloriau clinigol yn mesur ac yn cyflenwi deunydd llorio newydd ar | Sarah Carrington | 30/6/17 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| selio. | Iechyd Cymru 01-05, Adrannau 6.47 a 6.48 | gyfer y man dadheintio. | | |
| Sicrhau bod dull archwilio Deoniaeth Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer archwiliadau rheoli heintiau yn y dyfodol. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adran 2.23 | Mae'r dull archwilio wedi cael ei lawrlwytho eisoes a'i gadw yn barod ar gyfer yr archwiliad rheoli heintiau nesaf, a fydd ym mis Ionawr 2018. | Sarah Carrington | Cwblhawyd |
| Dylai'r practis adolygu a diweddaru ei bolisi dadheintio mewn perthynas ag offerynnau wedi'u storio mewn bagiau. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adran 2.4 (K) | Diwygiwyd y polisi dadheintio eisoes. | Sioned Jones | Cwblhawyd |
| Sicrhau bod lefelau ocsigen yn cael eu gwirio a'u cofnodi bob dydd. | Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Adran 1.5.3 | Gwiriadau o lefelau ocsigen wedi eu hychwanegu i ddyletswyddau dyddiol nyrsys. | Rebecca Greenan | Cwblhawyd |
| Ychwanegu gwirio dyddiadau dod i ben nodwyddau/chwistrellau i'r lòg cyfredol o offer | Canllawiau'r Cyngor Deintyddol | Dyddiadau dod i ben nodwyddau a chwistrellau wedi'u hychwanegu at restr wirio'r Pecyn Argyfwng, sy'n cael ei wirio | Rebecca Greenan | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| brys. | Cyffredinol, Adran 1.5.3 | unwaith y mis. | | |
| Sicrhau bod o leiaf un aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf. | Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Adran 6.2.6 | Trefnwyd cwrs cymorth cyntaf. | Sarah Carrington | 31/7/17 |
| Anfon manylion y tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd wedi'u hadnewyddu ar gyfer dau ddeintydd at AGIC. | Rheoliad 13 (3) (c), Atodlen 2 | Yn parhau i aros am y tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Anfonir y rhain at AGIC cyn gynted ag y byddant wedi cyrraedd. | Sarah Carrington | 14/7/17 |
| Cyflwyno lòg i gofnodi bod y cywasgydd yn cael ei ddraenio bob wythnos. | Rheoliadau Diogelwch Systemau Pwysedd 2000 | Mae lòg ar waith eisoes i gofnodi bod y cywasgydd yn cael ei ddraenio bob wythnos. | Rebecca Greenan | Cwblhawyd |
| Cynnal archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X bob blwyddyn. | Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 | Bydd archwiliadau o sganiau pelydr-X yn cael eu cynnal bob blwyddyn gydag archwiliadau o ddadheintio a rhagnodi cyffuriau gwrthfiotig. | Tara Martin | Ionawr 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Cofnodi rhagor o fanylion yng nghofnodion cleifion mewn perthynas â hanes cymdeithasol, yn enwedig o ran holi cleifion am gymeriant alcohol. | Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.1 | Cwestiwn am gymeriant alcohol wedi'i ychwanegu at y ffurflen hanes meddygol. | Rebecca Greenan | Cwblhawyd |
| Cofnodir cyfnodau ar gyfer galw cleifion yn ôl yn eu cofnodion. | Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.1 | Bydd clinigwyr a derbynyddion yn gwirio'r cyfnodau ar gyfer galw cleifion yn ôl yn ystod apwyntiadau archwilio. | Pob clinigwr<br>Staff y dderbynfa | Ar unwaith<br>Yn parhau |
| Rhaid cyfiawnhau, graddio ac adrodd am yr holl sganiau pelydr-X mewn cofnodion cleifion. | Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.1,<br>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 | Bydd clinigwyr yn sicrhau bod yr holl fanylion yn cael eu cofnodi mewn cofnodion cleifion. | Pob clinigwr | Ar unwaith<br>Yn parhau |
| Dylai deintyddion sicrhau bod yr holl gofnodion cleifion yn cynnwys cynllun triniaeth a chydsyniad i driniaeth. | Canllawiau'r Cyngor Deintyddol | Bydd cynllun triniaeth yn cael ei gyflwyno a'i lofnodi gan y claf ar gyfer pob triniaeth. | Staff y dderbynfa | Ar unwaith<br>Yn parhau |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Cyffredinol 4.1 | | | |
| Cyflwyno llyfr lòg ar gyfer cofnodi'r holl atgyfeiriadau allanol. | Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.1.6 | Cyflwynwyd lòg eisoes ar gyfer atgyfeiriadau allanol. | Beky Ward | Cwblhawyd |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Dylai'r practis sicrhau bod yr holl gyfarfodydd tîm yn cael eu cofnodi a'u logio'n ffurfiol. | Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Adrannau 6.6.4 a 6.6 | Bydd yr holl gyfarfodydd yn cael eu cofnodi ni waeth a ydynt yn ffurfiol neu'n anffurfiol. | Sarah Carrington | Ar unwaith |
| Dylid arddangos tystysgrif cofrestriad AGIC un o'r deintyddion fel sy'n ofynnol gan y rheoliad. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2008, Adran 4 | Arddangoswyd y dystysgrif eisoes. | Sarah Carrington | Cwblhawyd |
| Dylid arddangos enwau a chymwysterau’r holl ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis. | Rheoliad 13 (3) (c), Atodlen 2 | Archebwyd arwydd sy'n nodi enwau'r holl ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis. | Sarah Carrington | 30/6/17 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylid arddangos oriau agor y practis. | Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Adran 6.6.10 | Mae oriau agor y practis bellach yn cael eu harddangos yn y ffenestr. | Sarah Carrington | Cwblhawyd |
| Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, eu bod yn cynnwys dyddiadau adolygu a/neu fod y fersiynau'n cael eu rheoli, a'u bod yn cael eu llofnodi gan staff. | | Bydd yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru a bydd fersiynau'n cael eu rheoli. | Sarah Carrington | 30/6/17 |

Rhaid i'r adran ddilynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** Sarah Carrington

**Swydd:** Rheolwr y Practis

**Dyddiad:** 2/6/17